



## Beth sy'n digwydd os bydd rhywbeth arwyddocaol yn digwydd ym mywyd yr aelod o'm teulu neu ffrind?

Mae gwaith Mencap gyda phobl. Mae natur pobl yn meddwl bod pethau anrhagweladwy neu arwyddocaol yn digwydd weithiau. Mae arnon ni eisiau rhoi sicrwydd i chi ynglŷn â'r ffordd rydyn ni'n ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn pan fyddan nhw'n codi a sicrhau eich bod yn teimlo'n hyderus yn y ffyrdd rydyn ni'n mynd ati i gefnogi pobl trwy'r sefyllfaoedd hyn.

Pan fydd pethau arwyddocaol yn digwydd gyda'r aelod o'ch teulu neu ar ei gyfer, mae'n bwysig ein bod ni'n dweud wrthyhych chi cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn Mencap, rydyn ni'n ymrwymo i wneud hynny y cyfle cyntaf gawn ni er mwyn i chi deimlo'n gyfrannog ac yn wybodus am yr hyn sy'n digwydd o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol ein camau nesaf.

### Argyfyngau iechyd

Rydyn ni'n asesu peryglon yn drwyadl i sicrhau diogelwch a lles y bobl rydyn ni'n eu cefnogi ond weithiau mae argyfyngau iechyd yn digwydd. Mae staff ein gwasanaethau i gyd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf i sicrhau eu bod yn gallu rhoi'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw yn syth mewn argyfwng. Yn dilyn argyfwng iechyd fe fyddwn yn:

- Chwilio am y cymorth a'r gefnogaeth berthnasol ar gyfer yr aelod o'ch teulu
- Rhoi gwybod i chi'n syth am yr argyfwng iechyd
- Rhannu unrhyw ddogfennaeth, llythyrau ac adroddiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol pan gytunir i hynny
- Trafod unrhyw newidiadau i'n cefnogaeth o ganlyniad i'r argyfwng
- Rhoi gwybod i'r awdurdod lleol a chyrrff trefniadol yn ôl y gofyn.

### Argyfyngau eraill

Pan fydd argyfyngau eraill sy'n effeithio ar y bobl rydyn ni'n eu cefnogi neu ar eu cartrefi yn digwydd byddwn yn:

- Rhoi gwybod i chi am yr argyfwng cyn gynted â phosibl
- Cysylltu â gwasanaethau priodol (yn achos tân, llifogydd, lladrad, cerbyd yn torri i lawr, ayyb)
- Dilyn ein cynllun mudo mewn argyfwng yn y gwasanaeth pan fydd angen
- Dilyn ein dull gweithredu mewn digwyddiad argyfyngus pan fo'n briodol

- Sicrhau bod diogelwch yr aelod o'ch teulu yn dod yn gyntaf oll yn ein holl weithredoedd.

## Hysbysu a Chofnodi

Pan fydd pethau arwyddocaol yn digwydd ym mywydau'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi, rydyn ni'n cymryd hysbysu a chofnodi digwyddiadau o ddifrif. Mae hyn yn helpu i'n sicrhau ein bod ni'n deall beth ddigwyddod a pham y digwyddodd, ein bod ni'n gallu hysbysu'r rhai sydd angen gwybod gyda chywirdeb ac yn dysgu sut y gallwn ni osgoi digwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Gall y rheolwyr sy'n goruchwyllo ein gwasanaethau ddweud mwy wrthyhych chi am y ffordd rydyn ni'n hysbysu ac yn cofnodi a pham rydyn ni'n gwneud, os hoffech chi iddyn nhw wneud hynny.

Efallai y bydd yn rhaid i ni hefyd gyfeirio at Ddiogelu; gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn yn y ddogfen 'Sut mae Mencap yn cadw pobl yn ddiogel?' ym mhecyn Gwell Gyda'n Gilydd.

## Diogelu

Mae gennym ni ymrwymiad trefniadol i ddiogelu (gweler dogfen 'Sut mae Mencap yn cadw pobl yn ddiogel?') ac rydym yn cymryd holl bryderon diogelu o fewn y mudiad yn ddifrifol iawn.

Pan fydd rhywun yn ein hysbysu am faterion diogelwch fe fyddwn yn:

- Cymryd pryderon pobl o ddifrif
- Archwilio'n drwyadl
- Eich cadw'n gyfrannog ac yn wybodus o ddatblygiad pethau
- Dweud wrthyhych beth yw'r canlyniad a gweithredu'n gymwys pan fydd angen cymryd camau
- Gwneud atgyfeiriadau a rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn ôl y galw.

## Pan fydd person yn marw

Y gwir amdani yw, er tristed y bo, bod pobl weithiau'n marw wrth i ni eu cefnogi. Yn aml, mae hyn i'w ddisgwyl gan fod rhywun ag anhwylder iechyd oedd eisoes yn bodoli ond weithiau, fel gyda phopeth arall, gall ddigwydd yn ddirybudd.

Yn Mencap, rydyn ni wedi ymrwymo i ddysgu o farwolaethau sut bynnag maen nhw'n digwydd ac i gefnogi teuluoedd i gael yr wybodaeth, y gefnogaeth a'r atebion sydd eu hangen arnyn nhw.

## Cefnogi teuluoedd ar ôl marwolaeth

Fe wyddom bod marwolaeth aelod o'r teulu yn beth amhosibl meddwl amdano ac yn beth ofnadwy i ddigwydd. Dyna pam rydyn ni'n gweithio i sicrhau ein bod ni'n rhoi atebion

i deuluoedd a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw yn ystod yr adeg mwyaf anodd hwn. Fe fyddwn yn:

- Rhannu ein cydymdeimlad â chi, heb unwaith golli golwg ar y ffaith bod hyn yn golled enbyd i chi
- Deall pa mor anodd yw'r adeg hon i chi a'ch teulu a chydabod hynny ym mhob sgwrs rydyn ni'n ei chael
- Bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a phryderon sydd gennych ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd, gan sicrhau ein bod yn eglur ac yn onest â chi trwy gydol yr amser
- Bod ar gael i rannu unrhyw storïau a hanesion ynglŷn â'r aelod o'ch teulu yr ydych yn dymuno eu clywed a gadael i chi wybod faint roeddau nhw'n yn ei olygu i bobl eraill oedd yn eu hadnabod
- Siarad â chi am unrhyw gefnogaeth bellach sydd ei hangen arnoch chi gan Mencap
- Siarad â chi am unrhyw archwiliadau pellach ynglŷn â'r farwolaeth y mae'n bosibl y bydd angen eu gwneud a sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch ynglŷn â hyn
- Gwneud atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw archwiliad pellach i'r hyn ddigwyddodd (pan fydd angen) a chydweithio'n llawn mewn archwiliad o'r fath
- Dilyn ein hymrwymiad trefniadol i gyfeirio'r farwolaeth ar gyfer arolwg annibynnol dan raglen Arolwg i Farwolaethau Pobl ag Anabledd Dysgu (Learning Disability Mortality Review - gweler isod)

## Rhaglen Arolwg i Farwolaethau Pobl ag Anabledd Dysgu (LeDeR)

Mae gan Mencap ymrwymiad trefniadol i gyfeirio holl farwolaethau pobl rydyn ni'n eu cefnogi at raglen Arolwg i Farwolaethau Pobl ag Anabledd Dysgu.

Rhaglen o waith a gyflawnwyd gan Brifysgol Bryste yw hwn, i wneud arolwg o farwolaethau pobl ag anabledd dysgu oedd dros bedair oed, o'u hatgyfeirio. Y bwriad yw deall yr anghydraddoldebau ym maes eu hiechyd y mae pobl ag anableddau dysgu'n eu hwynebu a lleihau'r anghydraddoldebau hynny. Mae'r arolygon a gyflwynwyd yn ystyried tybed a fuasai unrhyw beth wedi medru bod yn wahanol ynghylch y ffordd y bu'r person farw. Unwaith mae atgyfeiriad yn cael ei wneud at raglen yr LeDeR, gall tîm y rhaglen gysylltu â'r teuluoedd i drafod pa un a fydden nhw'n dymuno cymryd rhan ym mhroses yr arolwg.

Mae'r Rheolwyr Rhanbarthol sy'n goruchwylio gwasanaethau Mencap ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r rhaglen unrhyw adeg.